# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 16 Chwefror 2023 am 18.30**
yng Nghanolfan Tregarth

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Dafydd Roberts

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce.
**Ymddiheuriadau** gan y Cyng. David H Roberts, Iwan Hywel a Lowri Jones.

2. **Cofnodion**
**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd - newyddion siomedig gan Lywodraeth Cymru bod arian sydd fel arfer yn cael ei gynnig trwy grantiau i wella diogelwch ar ein rhwydwaith wedi ei ddyrannu i ddarparu cynllun 20mya genedlaethol Llywodraeth Cymru am y flwyddyn 2023-2024. Er hyn fydd y Cyngor yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith cefndirol er mwyn fod yn barod i roi bid ymlaen am grant pan ddaw arian ar gael - ond nid yw'r Cyngor yn sicr pan fydd y cyfle yma ar gael i'r Gwasanaeth. Cadarnhawyd fydd y Cyngor hefyd yn edrych ar fan welliannau yn yr ardal i geisio arafu traffig a bydden nhw hefo gwell syniad o be allwn nhw ei gynnig yn yr wythnosau nesaf.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –** Y Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan cwmni Savills, a wedi danfon ychwaneg o wybodaeth iddynt – y Clerc wedi holi am ddiweddariad, dim ymateb hyd yn hyn.

3.3 **Llwybr Rhif 3 –** Adroddwyd fod y Swyddog Llwybrau wedi bod allan i edrych ar y llwybr, ac ei fod wedi sylwi fod angen arwyddion ger Cororion yn ogystal â manion eraill. Y Clerc wedi holi am ddiweddariad, dim ymateb hyd yn hyn.

3.4 **Drychau traffig -** Y Clerc wedi gwneud cais am ddau drych, un bob ochr, dim diweddariad hyd yn hyn.

**3.5 Lôn y Wern, Tregarth** –Nodwyd y Cyngr. Dafydd Roberts a Sian Beidas fod ychydig o waith clytio wedi ei gwblhau, ond fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd eto.

**3.6 Mainc Pentref Llandygai –** Y Clerc wedi derbyn pris – y Clerc i holi am bris pren caled.

**3.7 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** –Y Clerc wedi danfon y llythyr ymlaen at Julie James AS a Sian Gwenllian AS, a gofyn iddynt am eu sylwadau. Dim ymateb hyd yn hyn.

**3.8 Seddi Gwag –** Mae 3 sedd wag ar gael o fewn y Cyngor, y Clerc wedi llunio poster deniadol i fynd gyda'r hysbysiad i geisio denu mwy o sylw. Dim ymateb hyd yn hyn.

**3.9 Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –** Y Clerc i edrych ar gael hysbysfwrdd newydd metel i'w osod ar y ffens – ar y gweill. Angen cael hysbysfwrdd yr 'run maint ar un gwrieddiol.

**3.10 Lon Hafodty -** Adroddwyd fod llawer o dyllau ar hyd y ffordd a fod bwlch wedi disgyn – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

**3.11 Llwybrau Cyhoeddus -** Y Clerc wedi holi'r Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd, am fapiau a dogfennau eraill cyn gynted a phosib – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.12 Palmant Allt Cerrigllwydion** – Adroddwyd fod llawr o fwsog ar hyd y palmant hwn – y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd – y Clerc i ddanfon y wybodaeth at y Cyng. Beca Roberts, a'i gynnwys yn y rhestr Tim Tacluso.

**3.13 Coed ger Modurdai Bro Syr Ifor** – Nodwyd fod y coed ger y modurdai wedi gor-dyfu – y Clerc i gysylltu gyda Adra, a'r Cyng. Beca Roberts i cysylltu a Chyngor Gwynedd.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2023'

**Cyflwynwyd:** Chris Roberts, GwyrddNi – Cynulliad Cymunedol – Penderfynwyd gwahodd Chris i gyfarfod ym mis Ebrill neu Mai.

**Cyflwynwyd:** Murlun Twnel Tywyll – Nodwyd y Cyng. Beca Roberts ei bod wedi bod mewn cyswllt â Chyngor Gwynedd ynglyn a 'r posiblrwydd o greu murlun yn y twnel, gyda'r syniad o gyd-weithio gyda ysgolion yr ardal i dylunio murlun a fydd yn dathlu Tregarth/ Dyffryn Ogwen. Penderfynwyd cefnogi'r prosiect hwn.

**5. Lwfans Blynyddol**

Pawb yn bresennol wedi derbyn ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad neu'r ffurflen 'optio allan'. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc, cyn gynted a bo modd.

**6. Rhoddion**

Penderfynwyd gohirio'r eitem hwn tan y cyfarfod nesaf.

**7. Gwaith y mis**

**Tim Tacluso** - Cafwyd ddiweddariad gan y Cyng. Beca Roberts ar y Tim Tacluso, Cyngor Gwynedd. Cadarnhawyd eu bod yn ymweld a'r ardal Tregarth/Mynydd Llandegai bob chwarter am dridiau. Nodwyd eu bod yn yr ardal rhwng 13 – 17 Mawrth, ac yno ar y 29 – 2 Mehefin. Cytunwyd y byddai'r aelodau yn cadw lygaid allan am waith sydd angen ei gwblhau, ac yno i ddanfon rhestr o waith cynnal i'r Clerc neu i'r Cyng. Beca Roberts.

**8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen am y gwelliannau yn y ganolfan.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ionawr. Derbyniwyd yr adroddiad.

**10. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| D W Roberts | Metel ar gyfer lloches bws Tregarth | £30.37 |
| Llais Ogwan | Hysbyseb Rhoddion | £27.00 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/25/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0430/16/DT** | Arfon Lôn Y Grug, Mynydd Llandygai<br>Dymchwel rhan o estyniadau presennol a codi estyniad deulawr ar gyfer ystafelloedd byw, llofft a ystafell molchi ychwanegol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C22/1078/16/DT** | 5 Waen Y Pandy, Tregarth,<br>Estyniad unllawr i gefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C22/1107/16/LL** | Blas Lon Las, Felin Hen<br>Newid defnydd o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel swyddfa yn bresennol i uned gosod gwyliau.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill |
| **C22/1088/16/RC** | Fron Deg Uchaf, Sling<br>Diddymu cytundeb cyfreithiol Adran 106 sy'n cyfyngu defnydd adeilad allanol wedi ei addasu i fod yn dy fforddiadwy o dan caniatâd rhif C11/0051/16/LL.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/1117/16/LL** | Bryn Llys, Bethesda<br>Newid defnydd tir ar gyfer lleoli 5 llain carafan teithiol & cartref modur ychwanegol, adnewyddu'r ystafell ymolchi bresennol a |

lleoli 5 uned sefydlog (4 ychwanegol ac 1 presennol). Mae'r safle i'w feddiannu at ddibenion gwyliau yn unig at ddefnydd gydol y flwyddyn (12 mis)
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0030/16/DT** | 33 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai,<br>Cael gwared ar estyniad unllawr to fflat ac adeiladu estyniad unllawr to brig llechi newydd<br>**Penderfyniad:** Cefnogi. |
| **C23/0072/16/LL** | Plot C6, Parc Bryn Cegin, Llandegai,<br>Codi adeilad ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1/B2,/B8 (gyda Chownter Masnach mewn unrhyw uned B8) ac adeilad i'w ddefnyddio fel Masnachwr Adeiladwyr (storio, dosbarthu, cownter masnach, swyddfeydd a manwerthu ategol) gyda storfa allanol gysylltiedig, ardal arddangos, mynediad, parcio, goleuadau, ffensys, tirweddu caled a meddal.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.